Ffurflen Datgan Buddiant

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Dylid llenwi'r ffurflen hon o leiaf bob blwyddyn neu lle bu newid mewn amgylchiadau

Gall gwrthdaro buddiant ddigwydd os y gallai penderfyniad gan y Cyngor effeithio'n uniongyrchol arnoch chi, neu'n anuniongyrchol drwy ffrindiau agos a pherthnasau, mewn modd cadarnhaol neu negyddol. I sicrhau cydymffurfiaeth gyda Chod Ymddygiad y Cyngor mae angen i gyflogeion ddatgan os oes ganddynt fuddiant neu fuddiant posibl.

Pa fathau o fuddiannau ddylai gael eu datgan?
Dylech ofyn y cwestiwn dilynol i'ch hunan "A fyddai aelod o'r cyhoedd yn meddwl y byddai fy nheulu, ffrindiau agos neu fi yn manteisio o'r cysylltiad rhwng y cysylltiad rhwng fy muddiant personol a fy nghyflogaeth?"

Sut fyddwn i'n gwybod os oes gennyf fuddiant?
Os oes gennych chi neu berthynas (gweler isod am y diffiniad o berthynas), ffrind neu unrhyw un y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw:

1. yn ymwneud mewn sefydliad/busnes sy'n delio gyda'r Cyngor neu sy'n debygol i fod â neu sydd â chontract presennol neu arfaethedig gyda'r Cyngor e.e. contractwyr, cyflenwyr, busnesau lleol, datblygwyr eiddo, ac yn y blaen.
2. yn aelod o sefydliad neu grŵp a all wrthwynebu polisïau'r Cyngor neu gael eu heffeithio gan bolisi neu benderfyniad gan y Cyngor.
3. yn ymgymryd â rôl tu allan i'r gwaith y gall penderfyniadau'r Cyngor e.e. gweithredu fel llywodraethwr ysgol, aelod o fwrdd ymddiriedolaeth GIG ac yn y blaen.

MEWN SEFYLLFA O'R FATH MAE'N RHAID I CHI DDATGAN BUDDIANT YN DEFNYDDIO'R FFURFLEN HON.

Dylid nodi fod unigolion yn rhydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd ac a awdurdodwyd gan yr Undebau Llafur heb ddatgan buddiant.

Diffiniad o "Berthynas"
Mae perthynas yn golygu priod (gŵr neu wraig), partner, rhiant, rhiant yng nghyfraith, mab, merch, llysfab, llysferch, plentyn partner, brawd, chwaer, tad-cu neu fam-gu, ŵyr neu wyres, ewythr, modryb, nai, nith, neu briod neu bartner unrhyw un o'r personau hyn. Mae "partner" yn golygu aelod o gwpl sy'n cydfyw.

Goblygiadau
Dan adran 117 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n rhaid i chi ddatgelu mewn ysgrifen unrhyw fuddiant mewn contract presennol neu gontract arfaethedig cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Os gall perthynas achosi gwrthdaro buddiant real neu dybiedig, mater o ymddiriedaeth neu dorri cyfrinachedd mae'n rhaid i chi ddatgan hynny i'ch rheolwr neu berson priodol arall, yn gyfrinachol, cyn gynted ag y medrwch. Gallai methiant i ddatgan perthynas o'r fath arwain at weithredu disgyblaeth.

Yr hyn sydd angen i chi wneud

- Rhoi eich manylion personol isod.
- Nodi os oes gennych unrhyw fuddiant ai peidio.
- Rhoi'r wybodaeth berthnasol yn yr adran "Manylion Buddiant".
- Llofnodi, dyddio a rhoi'r ffurflen i'ch Rheolwr neu Brif Swyddog.

Enw:

Cyfarwyddiaeth/Gwasanaeth:

☐ **Nid oes** gennyf unrhyw fuddiant ☐ Mae gennyf y buddiant dilynol – manylwch isod

Manylion Buddiant:

Llofnod: Dyddiad: